PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 10 GORFFENNAF 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Walker(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Henshaw, Lister, Mackie a/ac McKerlich |

11 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Y Cynghorydd Bowen-Thompson

12 : DATGANIADAU O FUDDIANT

| CYNGHORYDD | EITEM | RHESWM |
|---|---|---|
| Mackie | Adroddiad Llesiant Blynyddol | Aelod o'r teulu yn Bennaeth Gofal Integredig |

13 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod ar 12fed Mehefin 2019 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

14 : EITEM WEDI GALW I MEWN - BWS CAERDYDD - BENTHYCIAD AR GYFER PRYNU CERBYDAU TRYDAN

Ystyriodd y Pwyllgor y galw i mewn gan Gynghorydd anweithredol o ran Penderfyniad CAB/19-20/5.

Y rhesymau a nodwyd gan y cynghorydd anweithredol dros alw'r penderfyniad i mewn oedd:

"Rwy'n bryderus iawn ynghylch y diogelwch y bydd y Cyngor yn ei geisio ac rwyf o'r farn y dylai hyn fod wedi ffurfio rhan o'r broses gwneud penderfyniadau, cyn symud ymlaen i benderfynu ar y benthyciad. Mae cwestiynau ynghylch diogelwch yn berthnasol i'r penderfyniad – beth os na ellir cael digon o ddiogelwch? Mae'r rhain yn bwyntiau y dylid eu nodi'n glir a'u craffu".

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor:
Roedd Atodiad 1 i Atodiad A yr adroddiad wedi'i eithrio rhag cael ei gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn unol â’r disgrifiad ym mharagraff 14 o ran 4 a pharagraff 21 o ran 5 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Cafodd y cyhoedd eu gwahardd o'r cyfarfod drwy benderfyniad gan y Pwyllgor yn unol ag Adran 100 (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaeth ar yr eitem hon.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Cynghorydd i gael ei gadw’n hysbys gyda’r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'r benthyciad wrth symud ymlaen.

PENDERFYNWYD: Cytunodd y Pwyllgor i nodi sylwadau'r cynghorydd ac i beidio â chymryd camau pellach.

Croesawodd y Pwyllgor y canlynol:

- Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Huw Thomas.
- Y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad
- Paul Orders, Prif Weithredwr
- Gareth Newell, Pennaeth Partneriaethau a Pherfformiad
- Dylan Owen, Pennaeth Swyddfa'r Cabinet

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Thomas i wneud datganiad.

Eglurodd y Cynghorydd Thomas fod yr adroddiad yn darparu asesiad o'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni blaenoriaethau Uchelgais Prifddinas y weinyddiaeth fel yr amlinellwyd yn y Cynllun Corfforaethol 2018-21. Roedd rhaglen bellgyrhaeddol o ymrwymiadau ar gyfer Caerdydd yn cael ei datblygu, gan gynnwys cynigion a rhaglen weithredu er mwyn parhau i yrru economi'r ddinas yn ei blaen, gan sicrhau ar yr un pryd bod yr holl drigolion yn teimlo manteision llwyddiant.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Thomas.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad a oedd yn amlinellu'r canlynol:

- Uchelgais Prifddinas: Adroddiadau Perfformiad Blynyddol
- Cynllunio Corfforaethol: Cynllunio, Gwneud, Adolygu
- Perfformiad Hunan-arfarnu, Sut rydym yn llunio Barnau
- Darlun Perfformiad Cyfanredol
- Mae Caerdydd yn Lle Gwych i Dyfu Fyny
- Mae Caerdydd yn Lle Gwych i Dyfu'n Hen
- Cefnogi Pobl Allan o Dlodi
- Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus
- Prifddinas sy'n Gweithio i Gymru
- Caerdydd yn Tyfu mewn Ffordd Wydn
- Moderneiddio ac Integreiddio ein Gwasanaethau Cyhoeddus
- Blaenoriaethau Gwella Corfforaethol:
  - Plant sy'n Derbyn Gofal a Chanlyniadau i blant agored i niwed
  - Rheoli Gwastraff a Gwasanaethau Safleoedd Stryd
  - Absenoldeb Salwch
  - Landlord Corfforaethol
  - Pwysau Ariannol
- Y Ffordd Ymlaen

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at y derminoleg yn yr adroddiad, gan ddangos tystiolaeth o amrywiaeth o sgoriau a'r gymysgedd o setiau statws gwahanol nad oedd yn rhoi'r eglurder angenrheidiol i'r rhai sy'n darllen yr adroddiad.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am y broses wella a'r mecanweithiau ar gyfer adrodd ar y wybodaeth.

Tynnodd Aelodau'r Pwyllgor sylw at yr amcanion a'r hunan-asesiad o berfformiad a sut y cawsant eu mesur.

- Moderneiddio ac integreiddio ein Gwasanaethau Cyhoeddus – methwyd 35%
- Prifddinas sy'n Gweithio i Gymru – 50%
- Mae Caerdydd yn Le Gwych i Dyfu Fyny – 65%

Pa fethodoleg oedd yn cael ei defnyddio i gyrraedd yr ystadegau a pha sicrwydd y gellid ei ddarparu mewn perthynas â'r dystiolaeth o graffu ar berfformiad?

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod casglu data yn cael ei ategu gan dystiolaeth o asesu archwilwyr, rheoleiddwyr ac arolygwyr fel rhan o'r broses hunan-dystiolaeth. Cydnabuwyd bod problemau wedi'u profi o ran Rheoli Gwastraff ond bod cynnydd yn cael ei wireddu.

Roedd yn hanfodol nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella ac ar gyfer materion allweddol 12, dylid ychwanegu misoedd at y canlyniadau i adlewyrchu'r canlyniadau. Herio gwybodaeth gymharol dros y 5 mlynedd diwethaf i fynd i'r afael â set ddata a sut y gellid edrych ar y data cymharol hwn.

Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor am wybodaeth ychwanegol o ran 'Caerdydd yn Tyfu mewn Ffordd Wydn' sy'n ymwneud â'r meysydd i'w gwella a'r cynnydd sy'n cael ei wneud.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai ymateb cyflym i'r rhaglen Aer Glân wedi'i sefydlu erbyn 2021.

Roedd y Pwyllgor yn pryderu nad oedd data perfformiad, 25% o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol, ar gael ac nad oeddent wedi'u hesbonio yn yr adroddiad.

Hysbyswyd yr Aelodau bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth yn ymwneud â Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, sy'n dargedau newydd yn ymwneud â'r Ddeddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol, a gyflwynwyd yn y Cynllun Corfforaethol.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at wybodaeth yn ymwneud â'r Landlord Corfforaethol, y 2 flynedd o ôl-groniad o £100 miliwn, a oedd nawr wedi dyddio.  Amcangyfrifwyd mai £250 miliwn oedd y ffigur gwirioneddol ar gyfer y gwaith cynnal a chadw hanfodol, a oedd yn ffigur sylweddol, yn enwedig pan oedd nifer fawr o ysgolion yn gysylltiedig.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod y ffigurau gwahanol a awgrymwyd o ran yr ôl-groniad o waith yn ymwneud â chynnwys y naill neu'r llall o'r Ystâd Weithredol neu Anweithredol neu'r ddwy ohonynt.  Byddai arolwg asedau yn cael ei gwblhau yn y dyfodol agos a byddai gwybodaeth gliriach ar gael i reoli'r gwaith cynnal a chadw parhaus sydd ei angen.  Ailadroddodd y Pwyllgor eu pryderon ynghylch materion arwyddocaol yr ystâd Ysgolion a pharciau'r ddinas.

Trafodwyd materion Ystâd yr Ysgol a oedd yn cynnwys risgiau iechyd a diogelwch a blaenoriaethau a oedd yn cael eu profi mewn ysgolion.

Cynghorwyd y Pwyllgor, er bod mwy o Gymdeithasau Maethu Annibynnol, bod mwy o ffocws yn cael ei gyfeirio tuag at sicrhau bod mwy o ddarpariaeth yn fewnol eto.

Trafododd y Pwyllgor hygrededd y data a sut yr oedd y targedau'n cael eu hymestyn, gan gynnwys esboniad yn yr adroddiad i amlinellu hyn.

Cyfeiriodd yr Aelodau at elfen "Cefnogi Pobl Allan o Dlodi" – cynnydd da a gofynnwyd a ellid sefydlu DPA i fynd i'r afael â'r Cyflog Byw.

Cynghorwyd y Pwyllgor y gellid ystyried DPA newydd drwy broses y Cynllun Corfforaethol.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at Aelodau'r Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

16 : CYNLLUN LLESIANT CAERDYDD 2018-2023

Cyflwynodd y Cadeirydd y canlynol:

- Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Huw Thomas.
- Paul Orders, Prif Weithredwr
- Gareth Newell, Pennaeth Partneriaethau a Pherfformiad
- Dylan Owen, Pennaeth Swyddfa'r Cabinet
- Maria Battle, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Dr Siân Griffiths

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Thomas i wneud datganiad.

Diolchodd y Cynghorydd Thomas i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am y gwaith a wnaed mewn perthynas ag uno'r gwasanaethau cyhoeddus.

Diolchodd y Cynghorydd Thomas i Maria Battle am ei chyfraniad i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gan ei bod hi'n gadael Ysbyty Athrofaol Cymru.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Gareth Newell, a oedd yn amlinellu'r canlynol;

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd
- Cynllun Llesiant Caerdydd
- Cynllun Cyflawni Llesiant 2018-2023
- Adroddiad Blynyddol
- Caerdydd yn 2019
- Demograffeg a Llesiant Caerdydd: Trosolwg
- Amcan 4: Mae Caerdydd yn Lle Gwych i Dyfu Fyny
- Y Camau Nesaf

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am yr arferion gweithio ar y cyd a oedd ar waith a oedd yn cefnogi'r dinesydd ac yn cefnogi lles yn gyffredinol. Cyfeiriwyd y ffocws at Iechyd a Lles, Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a Thrafnidiaeth. Gellid gweld gwahaniaeth ar draws y ddinas yn sgil cyflwyno cynllun Nextbike, y rhaglen Aer Glân ac ansawdd bywyd gwell. Yn ychwanegol, roedd cyflwyno'r rhaglen "Ewch â Fi

Adref" yn cefnogi pobl sy'n gadael yr ysbyty ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Roedd teithio'n iach yn hanfodol ac yn cael ei gefnogi gan gynllun Nextbike.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor am y cynlluniau sydd ar waith i ymdrin â Brexit a sut yr oedd y gwasanaethau wedi datblygu Cynllun Rheoli Argyfwng a gydlynwyd ar sail ranbarthol i gefnogi gwasanaethau wrth symud ymlaen.

Hysbyswyd yr aelodau o'r pwyslais a gyfeiriwyd at rannu data a sut yr oedd gweithio ar y cyd wedi galluogi meddwl ar y cyd a oedd yn cefnogi'r dinesydd.

Cydnabuwyd bod pwysau ariannol yn cael ei brofi, fodd bynnag, gyda datblygiad adeiladau "swyddfa graidd" roedd cynnydd mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael ei wireddu. Gellid gweld gwelliannau o ran yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth gan fod Ansawdd Aer yn un o'r prif flaenoriaethau. Dibynnai cyllid ar adnoddau cyfunol a oedd hefyd yn cynnwys darpariaeth yr heddlu a grant cronfa gofal rhyngwladol, a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

Cafodd y Pwyllgor wybod am y cynlluniau Brexit sydd ar waith i ymdrin â senario "dim cytundeb". Roedd y rhain yn cynnwys cadwyni cyflenwi, contractau, materion staffio a chydlyniant cymunedol. Cyfarfu'r partneriaid bob mis i roi sylw i'r sefyllfa a pharatoi ar ei chyfer wrth symud ymlaen.

Roedd y Pwyllgor yn awyddus i gael y wybodaeth ddiweddaraf am Swyddfeydd Craidd yn y ddinas rhwng partneriaid.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod amrywiaeth eang o leoliadau'n cael eu hystyried ar gyfer cydweithio a oedd yn cynnwys y maes iechyd a'r heddlu ond hyd yn hyn nid oedd unrhyw safbwynt terfynol ar y mater.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at Aelodau'r Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

## 17 : Y FLAENRAGLEN WAITH

Ystyriodd y Pwyllgor ei flaenraglen waith a thrafodwyd
eitemau i'w hystyried yn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer Medi 2019.

## 18 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - 25 MEDI 2019

Daeth y cyfarfod i ben am 7.10 pm